

Mark Isherwood AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth
Cyhoeddus

17 Ionawr 2023

Annwyl Mark

Ymchwiliad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus i Benodiadau Cyhoeddus

Diolch am eich llythyr dyddiedig 7 Rhagfyr am ymchwiliad eich pwyllgor i benodiadau cyhoeddus.

Fel rhan o'n cylch gwaith, mae'r Pwyllgor Cyllid yn gyfrifol am oruchwylio Swyddfa Archwilio Cymru ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Mae hyn yn cynnwys enwebu ymgeiswyr a ffefrir ar gyfer rolau Ombwdsmon ac Archwilydd Cyffredinol Cymru i'w penodi gan y Goron, yn ogystal â phenodi Aelodau Anweithredol o Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru ac argymhell penodi ei Gadeirydd.

Yn ystod y Senedd hon, mae'r Pwyllgor wedi bod yn gyfrifol am enwebu Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac am benodi Cadeirydd ac Aelodau Anweithredol Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru.

Hoffwn dynnu eich sylw at ein hadroddiadau, sy'n crynhoi'r broses a'r wybodaeth am yr ymgeiswyr a ffafriwyd ym mhob achos. Rwy'n falch o ddweud bod y penodiadau hyn yn gadarn, wedi denu amrywiaeth eang o ymgeiswyr o ansawdd, ac wedi arwain at ganlyniadau a gafodd gefnogaeth drawsbleidiol yn y Senedd.

Yn ogystal, rydym hefyd wedi cynnal gwrandawriad cyn penodi ac wedi cyhoeddi adroddiad ar yr ymgeisydd a ffefrir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ei benodi yn Gadeirydd Awdurdod Cyllid Cymru. Roedd y Pwyllgor yn gweld bod hwn yn ymarfer hollbwysig. Rhoddodd gyfle i'r ymgeisydd a ffefrir fod yn agored i graffu seneddol mewn lleoliad cyhoeddus, a chryfhaodd dryloywder ac atebolrwydd y broses.



Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

 SeneddCyllid@senedd.cymru

 0300 200 6565

Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

 SeneddFinance@senedd.wales

 0300 200 6565

O ystyried cyfrifoldebau a phrofiad y Pwyllgor o ran penodiadau cyhoeddus, mae gennym ddiddordeb naturiol yn eich ymchwiliad, a byddem yn gwerthfawrogi pe gallem gydweithredu'n barhaus yn y maes hwn, fel y gellir dysgu gwersi.

Yn benodol, credwn y dylai penodiadau cyhoeddus yng Nghymru, boed yn cael eu gwneud gan Lywodraeth Cymru neu gan y Senedd, gael eu llywodraethu gan gyfres gyson o egwyddorion. Mae democratiaeth iach yn gofyn am broses agored, dryloyw a theg ar gyfer penodi i uwch rolau cyhoeddus, a chredwn y dylai'r gwerthoedd hyn fod wrth wraidd y ffordd y caiff penodiadau o'r fath eu gwneud yng Nghymru.

Mae hefyd yn hanfodol bod y swyddi hyn yn parhau i ddenu ymgeiswyr o safon uchel o amrywiaeth o gefndiroedd, fel bod y rhai a benodir yn adlewyrchu'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Mae hyn yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod yr ymgeiswyr gorau yn cael eu penodi ac y caiff ymddiriedaeth ac uniondeb yn y system penodiadau cyhoeddus Cymru ei gynnal.

Edrychaf ymlaen at glywed canlyniad eich ymchwiliad ac at barhau i weithio gyda chi ar y materion hyn.

Yn gywir



Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

